

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Diogelwch safle yr ysgol

Gofynnwn yn garedig i chi barchu ein trefn foreol ni o ollwng eich plant wrth y giât os gwelwch yn dda. Rydym eisiau osgoi oedolion yn mynychu adeilad yr ysgol. Mae croeso i rieni plant y Meithrin ddod â'u plant at ddrws y Meithrin, ac mae croeso i rieni plant y Derbyn ac hŷn fynd at ddrws y Prif Fynedfa os oes angen. Y nod yw i ollwng eich plant wrth y giât os gwelwch yn dda. Mae staff ar gael i gynorthwyo'ch plentyn i mewn i'r ysgol os oes angen.



Ailgylchu dillad – Bag2School

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, ac i'r Cyngor Ysgol am drefnu. Llwyddwyd i godi £141. Gwych!

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon – Cyfarfod Blynnyddol

Dyma neges i'ch hatgoffa gyfarfod blynnyddol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon am 6yh ar nos Fercher nesaf - yr 2ail o Hydref yn Neuadd yr Ysgol. Byddwn yn ethol aelodau newydd i'r pwyllog. Gwerthfawrogir eich presenoldeb yn fawr.

Blwyddyn 6 i Ysgol Penweddig

Bydd rhieni a gwarcheidwaid disgynblion Blwyddyn 6 eisoes wedi derbyn gwybodaeth am fynychu Ysgol Penweddig ar ddydd Llun y 30ain o Fedi (ac eto ar y 13eg o Dachwedd) ar gyfer sesiynau dod i adnabod yr ysgol mewn paratoad ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Bydd y plant angen cyrraedd yr Ysgol Gymraeg fel arfer ar y boreau hynny, a chael eu casglu o'r Ysgol Gymraeg ar ddiwedd y dydd hefyd.



Tynnu lluniau unigol a theuluoedd

Bydd cwmni ffotograffiaeth Tempest yn yr ysgol i dynnu lluniau unigolion a theuluoedd yn Neuadd yr ysgol ddydd Mercher nesaf – yr 2ail o Hydref.

Os oes gennych unrhyw drefniadau arbennig e.e. tynnu llun teulu gyda disgynblion uwchradd neu fabis/plant cyn oed ysgol, yna dewch i'r ysgol erbyn 8:15 y bore. Bydd unigolion a theuluoedd sydd yn yr ysgol yn tynnu eu lluniau yn ystod y diwrnod ysgol rhwng 9:00 a 3:30yp.

Trawsgwlad Cylch Aberystwyth – Bl.3-6

Cynhelir y rasys traws gwlad ar gyfer ysgolion Cylch Aberystwyth ddydd lau nesaf, y 3ydd o Hydref. Cynhelir y rasys ar gae Yr Ysgol Gymraeg, gan gychwyn am 10 o'r gloch y bore. Byddwn yn dilyn y drefn rasys blwyddyn 3, 4, 5 a 6 gan obeithio i orffen tua 11:30yb Mae croeso i chi fel rhieni a gwarcheidwaid i ddod i gefnogi'r digwyddiad hwn.

Cogurdd a Phoburdd

Cystadlaethau ar gyfer blynnyddoedd 4,5 a 6 yw Cogurdd (ac am y tro cyntaf eleni – Poburdd) Y dyddiadau pwysig ar gyfer y rhain eleni yw:

Cogurdd : Pryn hawn dydd Mercher, 3:30-4:30yp 16eg o Hydref yn Neuadd yr Ysgol

Poburdd : Dewch â'ch cynnrych pobi i'r ysgol ar fore dydd Llun yr 21ain o Hydref.



(Cliciwch ar yr uchod i ddarllen y canllawiau) ↗

Arad Goch - Cymrix

Ar brynhawniau dydd iau a Gwener y 3ydd a 4ydd o Hydref, bydd cwmni theatr Arad Goch yn perfformio 'Cymrix' i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6. Bydd y perfformiadau yn digwydd yn Neuadd yr ysgol. Ni chodir tâl am y perfformiadau hyn.


Diogelwch tân

Bydd blynnyddoedd 2 a 5 yn derbyn ymweliad gan Swyddog o'r Frigâd Dân ar ddydd Gwener y 4ydd o Hydref, er mwyn derbyn sesiwn ar ddiogelwch Tân yn y cartref. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus y Frigâd Dân – mae eu hymweliadau cyson yn bwysig i gefnogi dealltwriaeth y plant o gadw'n ddiogel.

Y Gymraeg

Yr wythnos hon rydym yn rhannu deunydd darllen Cymraeg arlein gyda chi.

Mae'r sgrinluniau isod yn ddolenni a fydd yn eich cludo i wefannau gwahanol sy'n cynnwys deunydd darllen amrywiol i chi fwynhau adref gyda'ch plant.



(Wythnos nesaf mi fyddwn ni'n rhannu hoff ganeuon Cymraeg – beth am rannu eich hoff gân gyda ni? – e-bostiwrchi swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk yn enwi eich hoff gân neu albym!)

Ymaelodi gyda'r Urdd

Dyma rannu'r ddolen ar gyfer ymaelodi gyda'r Urdd unwaith eto: [Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#)

Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn. Mae gostyngiad ariannol ar gyfer ymaelodi teulu, a £1 y plentyn ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau.

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol. Sylwch fod diwrnod ola'r hanner tymor hwn yn ddiwrnod H.M.S ar gyfer hyfforddi staff. (Hydref 25ain)

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cynhelir y Gyngerdd Nadolig eleni ar nos lau y 12^{fed} o Ragfyr yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau.

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener yr 20^{fed} o Ragfyr 2024.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

27/09/2024

 www.ysgolgymraeg.cymru



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Keeping the school safe

We kindly ask you to respect our morning routine of dropping your children off at the gate please. We want to avoid adults entering the school building. Parents of Nursery children are welcome to bring their children to the Nursery door, and parents of Reception children and older are welcome to go to the Main Entrance door if necessary. The aim is to drop your children off at the gate. Staff are available to assist your child into school if necessary.



Clothes recycling – Bag2School

Thank you all for your support, and to the School Council for organising. We managed to raise £141. Excellent!

Parent & Teacher Association - Annual General Meeting

Here's a reminder of the annual meeting of the Parent Teacher Association at 6pm next Wednesday - the 2nd of October in the School Hall. We will be electing new members to the committee. Your attendance will be appreciated.

Year 6 to Ysgol Penweddig

Parents and guardians of Year 6 pupils will have already received information about attending Ysgol Penweddig on Monday the 30th of September (and again on the 13th of November) for sessions to get to know the school in preparation for the next educational year. The children will need to arrive at Ysgol Gymraeg as usual on those mornings and to be collected from Ysgol Gymraeg as usual at the end of the day also.



Taking individual and family photos

The Tempest photography company will be at the school to take pictures of individuals and families in the school hall next Wednesday - the 2nd of October.

If you have any special arrangements e.g. take a family photo with secondary school pupils or babies/pre-school children, then come to school by 8:15 in the morning. Individuals and families who are at the school will have their photos taken during the school day between 9:00 and 3:30pm.

Aberystwyth Area Cross-Country – Yrs.3-6

The cross-country races for Aberystwyth District schools will be held next Thursday, the 3rd of October. The races will be held on Yr Ysgol Gymraeg field, starting at 10 o'clock in the morning. We will be following the year 3, 4, 5 and 6 race schedule hoping to finish around 11:30am. You as parents and guardians are welcome to come and support this event.

Cogurdd and Poburdd

Competitions for years 4,5 and 6 are Cogurdd (and for the first time this year – Poburdd)
The important dates for these this year are:

Cogurdd : Wednesday afternoon, 3:30 – 4:30pm 16th of October in the School Hall

Bakery : Bring your baked goods to school on the morning of Monday the 21st of October.



(Click on the above posters for information – bilingual resources)

Arad Goch - Cymrix

On the afternoons of Thursday and Friday the 3rd and 4th of October, Arad Goch theatre company will perform 'Cymrix' for pupils in years 5 and 6. The performances will take place in the school hall. There is no charge for these performances.


Fire safety

Years 2 and 5 will receive a visit from an Officer of the Fire Brigade on Friday the 4th of October, in order to receive a session on fire safety in the home. We are grateful for the ongoing support of the Fire Brigade - their regular visits are important to support the children's understanding of keeping safe.

The Welsh language

This week we are sharing online Welsh reading material with you.

The screenshots below are links that will take you to different websites that contain various reading material for you to enjoy at home with your children.



Apiau a Gwefannau defnyddiol

APIAU AR GYFER PLANT 3+ / APPS FOR CHILDREN 3+

Sion Corn yn Florida-Mae'r ap hwn yn gadell i ddarparu galwad gan Sion Corn ar dy iPhone er mwyn i'r dyn ei hanes o freges Gymreig aethom i'w chanu. / This app allows you to have a call from Sion Corn on your iPhone so he can leave a special Welsh message for your little ones.

APIAU CYW / SACS CYW APPS

Cyw SAC-Ymuna a byd hudo! Cyw drwy gwredd a'r cymeriadau, darllen straeon, chwarae gema'u a dysgu caneon. / Cyw is SAC's pre-school service. Become part of Cyw's magical world, meet the characters, have fun reading stories, play games and learn songs.

Cyw a'r Wyddor -Llawer o hawl wrth ddysgu'r wyddor Gymraeg / Try learning the Welsh alphabet with your child using this Cyw app by SAC.

Cyfri gyda Cyw- Help dy blentyn ddysgu cyfrif i dddeg / Have fun with your children as they learn to count to ten in Welsh..

Ap Amser Stori Cyw- Llovwyrthwch eich dewisi chi a straeon i greu i lyfrgell personol. / Download your choice of stories to create your personal bedtime library.

(Next week we'll be sharing favourite Welsh songs - why not share yours with us? - email swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk naming your favourite song or album!)

Urdd Membership

Here is the link to join the Urdd [Join | Urdd Gobaith Cymru](#)

By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd and take part in sports and eisteddfod activities during the year. There is a discount for family membership, and £1 per child for families receiving various income support.

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website. Please note that the last day of this half term is an I.N.S.E.T day for staff training. (October 25th)

Important dates next half term

This year's Christmas Concert will be held on Thursday 12th December in the Great Hall at the Arts Centre.

The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 20th of December 2024.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

27/09/2024

www.ysgolgymraeg.cymru